# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Mai 2019

Amser: 09.31 - 11.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5513

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Bethan Sayed AC (Cadeirydd)<br>Mick Antoniw AC<br>Huw Irranca-Davies AC (yn lle Jayne Bryant AC)<br>Vikki Howells AC<br>Delyth Jewell AC<br>David Melding AC<br>Dafydd Elis-Thomas AC |
| Tystion: | Lesley-Anne Kerr, Llywodraeth Cymru<br>Jason Thomas, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Martha Da Gama Howells (Ail Glerc)<br>Lowri Jones (Dirprwy Glerc)<br>Robin Wilkinson (Ymchwilydd)<br>Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jayne Bryant AC a Rhianon Passmore AC.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Huw Irranca-Davies AC a oedd yn dirprwyo ar gyfer Jayne Bryant AC ar gyfer y cyfarfod hwn.

1.4. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor nad yw Caroline Jones AC bellach yn Aelod o'r Pwyllgor.

1.5 Diolchodd y Cadeirydd i Caroline Jones AC am ei chyfraniad at waith y Pwyllgor.

## 2 Minnau hefyd! - Ymchwiliad i rôl y celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol: y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

2.1 Ymatebodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ynghylch Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

3.1 Nododd yr Aelodau y papur.

### 3.2 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

3.2 Nododd yr Aelodau y papur.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Ôl-drafodaeth breifat a chyfle i drafod materion o bwys

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law a'r materion allweddol a gododd o'r dystiolaeth y cafodd y Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.